Dyddiad cyhoeddi: 12 Ebrill 2017

Lefel y ffioedd llwyddiant sy'n daladwy i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (CBCA)

Rwyf yn ysgrifennu er mwyn ymateb i'ch cais am wybodaeth, a anfonwyd at Mike Usher ar 22 Mawrth 2017. Roedd eich cais am y wybodaeth ganlynol:

(a) lefel y ffioedd llwyddiant o ran gwireddu asedau a negodwyd gan LSH ac Amber ar y gorsymiau sy'n gysylltiedig â Threfynwy a Llys-faen;

(b) y sail ar gyfer cyfrifo'r ffioedd llwyddiant hynny; a

(c) cymalau perthnasol y Cytundeb Rheoli Buddsoddiadau rhwng CBCA, Amber ac LSH.

Rhannau (a) a (b)

Nid oes gennym wybodaeth sy'n cyfateb i rannau (a) na (b) o'ch cais.

Rhan (c)

Mae gennym wybodaeth sy'n cyfateb i ran (c) o'ch cais, ond nid wyf yn ei darparu gan ei bod yn dod o dan yr eithriad a ddarperir gan adran 43(2) (buddiannau masnachol) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Byddai datgelu'r wybodaeth yn niweidiol i fuddiannau masnachol y partïon dan sylw. Mae craffu ar y ffordd y caiff arian cyhoeddus ei wario o fudd i'r cyhoedd, ond yn yr achos hwn, rwyf o'r farn y byddai'r niwed a gâi ei achosi drwy ddatgelu'r wybodaeth yn fwy na'r budd tebygol i'r cyhoedd ehangach. Felly, ar ôl pwyso a mesur y dadleuon er budd y cyhoedd, rwyf wedi penderfynu y dylid cadw'r eithriad a ddarperir gan adran 4(2)3.

Os bydd gennych unrhyw gŵyn am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost ataf neu ysgrifennwch ataf.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan yr adran honno, cewch ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth benderfynu a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf. Mae manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

The Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
e-bost: casework@ico.org.uk

Ffôn: 0303 123 1113
Ffacs: 01625 524510

Fodd bynnag, dylech nodi y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi ddilyn pob cam o dan ein gweithdrefnau cwyno mewnol ni cyn gwneud cais o'r fath. Ceir rhagor o ganllawiau ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,